Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion
**Canolfan Aberaeron**
**Portland Place**
**Aberaeron**
**Ceredigion**
**SA46 0AX**

**Dyddiad yr arolygiad:  Chwefror 2020**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion

Mae Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion yn rhan o ddarpariaeth awdurdod addysg lleol Ceredigion ar gyfer disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae gan ran fwyaf y disgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae pob un disgybl unai'n destun datganiad o anghenion addysgol arbennig neu yn destun 'cytundeb gweithredu ysgol a mwy' mewn darpariaeth adnoddol arbenigol.

Mae Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion wedi'i chofrestru gyda Llywodraeth Cymru fel uned cyfeirio disgyblion 'portffolio'. Mae'r uned wedi'i lleoli ar draws tri safle, sef Canolfan yr Eos yn Aberystwyth, Canolfan Bro Steffan yng Nghribyn a Chanolfan Aeron yn Aberaeron. Mae cynlluniau ar waith i ail-leoli Canolfan Bro Steffan mewn safle mwy addas yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

Mae un bwrdd rheoli yn goruchwylio'r uned cyfeirio disgyblion (UCD) ac mae strwythur rheoli llinell integredig iddi. Mae 20 disgybl yn derbyn addysg amser llawn yn yr UCD. Yn ogystal, mae'r UCD yn darparu gwasanaeth allgymorth ar gyfer tua 30 o ddisgyblion prif lif o fewn Ceredigion. Mae'r UCD yn cynnig gwasanaeth cefnogaeth a chyngor ar agweddau penodol o gefnogi ymddygiad cadarnhaol ar gyfer ysgolion o fewn yr awdurdod.

Nod yr UCD yw galluogi pob disgybl i ddychwelyd i addysg prif lif a/neu addysg bellach, hyfforddiant neu waith. Mae pob disgybl yn derbyn addysg amser llawn, unai yn yr UCD neu trwy drefniant rhannol gydag ysgol prif lif, coleg, darparwr hyfforddiant neu waith.

Mae 25% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ac mae lleiafrif ohonynt yn blant mewn gofal. Nid oes unrhyw ddisgybl yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r pennaeth dros dro yn ei swydd ers Ionawr 2020. Mae ganddo brofiad blaenorol o arwain yng nghyfnod allweddol 3 ac o arwain yng nghanolfannau eraill yr UCD. Mae'n bennaeth dros dro ar gyfer pob safle a thros yr holl staff cymorth ymddygiad sy'n gweithio mewn ysgolion ar draws yr awdurdod. Yn ogystal, mae athro mewn gofal yn Nghanolfan Eos a Chanolfan Aeron.

## Crynodeb

Yn ystod eu hamser yn yr uned cyfeirio disgyblion (UCD), mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau cymdeithasol, emosiynol, ymddygiadol ac yn eu gallu i gydweithio ag oedolion a chymheiriaid. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl sy'n derbyn gwasanaeth cefnogol yn y prif lif yng nghyfnod allweddol 2 a rhan fwyaf y disgyblion sy'n mynychu'r safle cyfnod allweddol 3 yn dychwelyd i addysg prif lif yn llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn arddangos balchder ac yn adrodd yn huawdl am y profiadau dysgu maent yn eu cael a sut mae'r awyrgylch ddysgu yn cael effaith cadarnhaol arnynt ac ar eu hunanhyder**.** Wrth iddynt gydweithio ag oedolion a disgyblion eraill yn y lleoliadau amgen, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwynnol gan ddatblygu medrau ymarferol gwerthfawr, er enghraifft ym maes adeiladwaith, paratoi bwyd a thrin gwallt.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud datblygiad cadarn yn eu gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol ac yn eu medrau llythrennedd a rhif. Er hyn, nid yw ychydig o ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwyaf abl, yn cyflawni cystal ag y gallent gan nad oes digon o gyfleoedd iddynt ehangu ac ymarfer eu medrau ysgrifennu a'u huwch fedrau darllen.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau disgyblion, yn enwedig eu medrau ysgrifennu estynedig, uwch fedrau darllen a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A2 Gwella ansawdd yr addysgu drwy sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu rhannu ar draws y tri safle

A3 Cryfhau'r cynllunio ar gyfer datblygu'r medrau gan sicrhau cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhif a TGCh a rhoi mwy o sylw ar gyfer datblygu'r disgyblion mwyaf abl

A4 Gwella trylwyredd ac effeithiolrwydd y prosesau gwella ansawdd er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth a chodi safonau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd UCD i baratoi astudiaeth achos i'w lledaenu ar wefan Estyn ar ei gwaith mewn perthynas â chymorth i ddisgyblion wella eu hymddygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae disgyblion yn derbyn gwasanaeth gan Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion oherwydd bod anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ganddynt. Yn aml, ond nid o hyd, maent wedi derbyn gwaharddiadau tymor penodol niferus tra yn eu hysgolion prif lif. Yn ystod eu hamser yn yr UCD, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr wrth ddatblygu medrau cymdeithasol a hunanhyder ac wrth gywiro eu hymddygiad.

Yn y gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud datblygiad cryf yn eu medrau llafaredd. Mewn trafodaethau dosbarth, maent yn hyderus a pharod i rannu eu barn a chynnig ymatebion ystyriol gyda staff a chyd-ddisgyblion. Mae ychydig o ddisgyblion yn trafod yn aeddfed a phwrpasol, er enghraifft wrth drafod eu hoff awduron, fel Roald Dahl a Michael Morpurgo. Mae'r disgyblion ag anawsterau emosiynol dwys yn gwneud cynnydd cryf iawn o'u mannau cychwyn mewn medrau llafaredd. Mae hyn yn nodwedd gref. Mae disgyblion sy'n dilyn cyrsiau amgen yn cyd-drafod y broses o adeiladu waliau yn hyderus gan wneud defnydd priodol o eirfa dechnegol. Yn y gwersi Cymraeg, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu ystod dda o eirfa wrth gasglu ffeithiau tra'n gwrando ar siaradwyr Cymraeg cynhenid yn sôn am eu hamser hamdden.

Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen cadarn ar draws yr UCD. Mae'r rhan fwyaf yn caffael gwybodaeth a chasglu ffeithiau'n llwyddiannus wrth ddarllen ystod eang o destunau. Mae llawer yn hyderus wrth ymchwilio i destunau ar y we. Er enghraifft, yn y gwersi Saesneg, mae disgyblion yn ymchwilio'n bwrpasol trwy ddarllen erthyglau ar y rhyngrwyd er mwyn creu cyflwyniad llafar ar fywyd a gwaith beirdd rap. Trwy ddatblygu eu medrau darllen, maent yn dod i ddeall yn well sut mae diwylliant, cerddoriaeth, hanes a thlodi yn gallu dylanwadau ar yr hyn y mae'r beirdd hyn yn ei ysgrifennu.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cryfhau eu gallu i ddadansoddi ac ystyried effaith trwy astudio darnau priodol o waith llenyddol. Er enghraifft, maent yn astudio ychydig o gerddi ac yn dod i gasgliad am effaith yr ieithwedd ar y darllenydd, neu'n ystyried digwyddiadau yn y nofel, Holes. Fodd bynnag, mae gan ychydig o ddisgyblion fedrau darllen gwan ac maent yn amharod i ddarllen er mwyn pleser. Oherwydd diffyg cyfleoedd, mae datblygiad uwch fedrau darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn annatblygedig.

Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud datblygiad priodol yn eu medrau ysgrifennu. Mae ganddynt afael dda ar eirfa ac ar gystrawen. Maent yn trefnu eu gwaith ysgrifenedig yn synhwyrol mewn paragraffau ac yn rhoi ystyriaeth briodol i atalnodi. Mae ansawdd y sillafu yn gyffredinol dda. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadeg cyson ac yn camddefnyddio prif lythrennau.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cyfleu gwybodaeth yn eglur yn ysgrifenedig gydag ystod briodol o eirfa pwnc penodol. Er enghraifft, maent yn cyflwyno gwybodaeth am effaith negyddol cyffuriau fel rhan o'u cwrs camddefnyddio sylweddau. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn cyflwyno darnau ysgrifenedig byr iawn ac nid ydynt yn rhoi sylw digon manwl i gywirdeb nac i gyflwyniad eu gwaith.

Mewn ystod gul o bwrpasau, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau ysgrifennu annibynnol. Er enghraifft, maent yn ymarfer techneg ac effeithiau i ddwyn perswâd wrth gyflwyno darn ysgrifenedig estynedig sy'n pwyso a mesur manteision ac anfanteision bwyta cig ac yn ystyried effaith y fasnach gwerthu cig ar yr amgylchedd. Pan geir cyfleoedd, mae tua hanner y disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu'n gynhyrchiol i lunio disgrifiadau ac i fynegi eu teimladau. Er enghraifft, yn y gwersi addysg bersonol a chymdeithasol (ABaCH), maent yn ysgrifennu'n rhugl wrth ystyried effaith teimladau negyddol a sut i'w trawsnewid i deimladau cadarnhaol. Yn y Gymraeg, mae llawer yn gwneud defnydd pwrpasol o'u gwybodaeth o sut i ffurfio berfau yn yr amser gorffennol er mwyn llunio dyddiadur personol. Fodd bynnag, ar draws yr UCD, nid yw disgyblion, yn enwedig y rhai mwyaf galluog, yn gwneud cystal cynnydd ag y gallent mewn medrau ysgrifennu annibynnol ac estynedig.

Yn gyffredinol, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud datblygiad cadarn yn eu medrau rhif ar draws yr UCD. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio'r pedair rheol rhif i ddatrys problemau pob dydd. Er enghraifft, maent yn dadansoddi cyflog sylfaenol ac oriau ychwanegol neu'n cyfrifo gwir gost talu am deledu trwy daliadau misol o'i gymharu â gwneud un taliad llawn. Mae llawer yn hyderus wrth weithio gyda ffracsiynau a hafaliadau syml. Maent yn fedrus wrth drin data, er enghraifft i ganfod patrymau tywydd wrth edrych ar ddata tymheredd mewn gwahanol ardaloedd o'r Deyrnas Unedig. Mae llawer yn deall hanfodion graffiau llinell cywir ac yn cofnodi data'n gywir ar echelinau. Mae mwyafrif y disgyblion yn fedrus wrth gyfrifo onglau a chylchedd ac wrth wneud hafaliadau algebra syml. Fodd bynnag, nid yw disgyblion, yn enwedig y rhai mwyaf galluog, bob tro yn cyrraedd eu llawn potensial mewn mathemateg a rhifedd oherwydd y diffyg cyfleoedd sydd iddynt gyflawni gwaith mwy heriol.

Ar y cyfan, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau TGCH mewn ystod gul o feysydd addas.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud datblygiad addas yn eu medrau meddwl. Er enghraifft, yn y gwersi Cymraeg, maent yn adalw geirfa, cystrawennau a rheolau gramadegol yn llwyddiannus er mwyn paratoi cyflwyniad wrth astudio'r thema 'Fy Milltir Sgwâr'. Mae disgyblion yn datrys problemau'n frwdfrydig wrth ystyried newidiadau mewn egni a chyfrifo cyflymder trwy greu model o ffigar-êt.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol gwerthfawr mewn ystod eang o sefyllfaoedd pwrpasol. Er enghraifft, maent yn coginio bwydydd o safon uchel, yn creu darnau celf atyniadol fel masgiau ffelt ac yn cynhyrchu addurniadau Nadolig. Mae mwyafrif y disgyblion yn cryfhau eu medrau corfforol trwy weithgareddau awyr agored, ymweliadau wythnosol i'r gampfa a thrwy sesiynau yoga.

Mae'r UCD yn cynnig mynediad at ystod eang o gymwysterau priodol i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Dros y tair mlynedd diwethaf, mae mwyafrif y disgyblion hyn wedi llwyddo i ennill cymwysterau lefel 2 addas yn y pynciau craidd ac mewn cyrsiau galwedigaethol. Nid yw'n briodol cymharu eu perfformiad â pherfformiad disgyblion tebyg mewn unedau cyfeirio disgyblion eraill. Yn yr un modd, nid yw'n briodol cymharu perfformiad disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim gyda pherfformiad disgyblion tebyg mewn unedau cyfeirio disgyblion eraill.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae disgyblion sy'n derbyn gwasanaeth gan yr UCD yn datblygu'n unigolion hyderus a chymdeithasgar. Mae bron bob un ohonynt yn magu a datblygu ymddiriedaeth a pherthynas werthfawr gydag oedolion. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu dycnwch a medrau cymdeithasol gwerthfawr. O ganlyniad, mae lleiafrif y disgyblion yn dychwelyd yn ôl i'r prif lif yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae'r gweddill yn llwyddo i gadw eu lle yn yr UCD, yn ennill cymwysterau addas ac yna'n symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu waith. Mae hyn yn nodwedd gref.

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr UCD ac yn gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth arnynt. Maent yn ymddiried yn yr oedolion sy'n eu cefnogi a'u haddysgu ac yn meithrin perthynas adeiladol gyda hwy. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gref o bwysigrwydd byw'n iach trwy ddiet ac ymarfer corff. Maent yn deall sut y mae gwneud dewisiadau annoeth yn gallu effeithio ar eu lles a'u hiechyd meddyliol a chorfforol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cyd-drafod yn aeddfed beryglon diodydd egni uchel a bwydydd sy'n cynnwys lefelau uchel o siwgr a braster. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwybod sut i gadw'n saff ar lein ac yn deall peryglon perthnasoedd amhriodol ar lein. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn iawn o hanfodion perthnasoedd iach a chadarnhaol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn groesawgar ac yn barchus at oedolion anghyfarwydd ac ymwelwyr. Yn eu gwersi ac o gwmpas y safleoedd, mae llawer yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn dangos parch a gwerthfawrogiad o'r staff sy'n eu dysgu a'u cynorthwyo. Yn ystod eu hamser yn yr UCD, mae'r rhan fwyaf yn datblygu deallusrwydd cadarn o sut mae ymddygiadau yn effeithio ar fywydau pobl. Mae llawer ohonynt yn gwneud newidiadau buddiol i'w hymddygiad ac yn datblygu aeddfedrwydd priodol wrth dyfu'n oedolion ifanc. O ganlyniad i welliannau yn eu hymddygiad, mae'r disgyblion hyn yn ennill yr hawl i gymryd rhan yn yr 'Wythnos Lles Gaeaf' a'r 'Wythnos Lles Haf'. Yn ystod yr wythnosau hyn, maent yn datblygu hunanhyder a dycnwch wrth wynebu heriau fel sialensiau rhaffau uchel neu weithgareddau arfordirol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol gwerthfawr wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol fel trefnu boreau coffi i hel arian at elusennau neu i godi arian i wella'r cyfleusterau yn yr UCD. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cydweithio buddiol trwy arwain a chymryd cyfrifoldebau. Enghraifft nodedig o hyn yw'r rhan arweiniol sydd gan y disgyblion yn y gwasanaeth Nadolig yn Eglwys y Drindod Sanctaidd yn Aberaeron, sy'n cael ei drefnu i rieni a gofalwyr ac i'r gymuned leol.

Mae gwaith y cyngor ysgol yn datblygu'n addas. Trwy'r cyngor, mae disgyblion yn lleisio eu barn ar fywyd a gwaith yr UCD ac yn gwneud awgrymiadau dilys am weithgareddau dymunol. Yn ddiweddar iawn, mae'r cyngor wedi dylanwadu'n briodol ar gynnwys eu themâu trawsgwricwlaidd, fel y thema 'Gadewch i ni ddathlu' ar gyfer tymor yr hydref.

Mae presenoldeb disgyblion cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 yn gadarn dros amser. Mae presenoldeb disgyblion cyfnod allweddol 4 yn amrywiol dros y tair blynedd diwethaf. Mae agweddau at ddysgu ychydig iawn o ddisgyblion yn llai ffafriol ac yn cael effaith negyddol ar eu presenoldeb a'u parodrwydd i gyflawni. Yn ystod y

flwyddyn hon, mae data presenoldeb heb ei wirio yn dangos bod presenoldeb disgyblion ar draws yr UCD wedi gwella o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Er bod nifer y gwaharddiadau tymor penodol yn debyg dros y tair blynedd diwethaf, maent yn isel o ystyried natur y ddarpariaeth ac anghenion y disgyblion unigol. Nid oes unrhyw ddisgybl wedi'i wahardd yn barhaol yn ystod y tair blynedd diwethaf.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae staff yr UCD yn meithrin perthynas waith arbennig o gryf gyda'r disgyblion yn eu gofal. Mae'r holl staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn ymwybodol o'u cefndir a'u hanawsterau, a'r hyn sy'n eu hysgogi ac yn peri gofid iddynt. Maent yn adnabod yr heriau sy'n wynebu disgyblion unigol ac yn llwyddo i greu awyrgylch hynod ofalgar iddynt ar draws pob safle. Golyga hyn fod llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau ac yn dyfalbarhau'n dda yn eu gwersi.

Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda iawn. Nodwedd gref o waith y staff yw'r ffordd y maent yn rheoli'r cydbwysedd rhwng rhoi cefnogaeth ac annibyniaeth i ddisgyblion mewn modd sensitif a synhwyrol. Trwy hyn, maent yn paratoi'r disgyblion yn llwyddiannus ar gyfer ymdopi'n annibynnol tu allan i'r UCD, neu pan maent yn dychwelyd i addysg prif lif.

Mae llawer o athrawon yn darparu gwersi a gweithgareddau ysgogol sydd wedi eu cynllunio'n dda. Maent yn defnyddio ystod o adnoddau priodol i ennyn diddordeb y disgyblion ac i gyfoethogi'r dysgu. Er enghraifft, defnyddir paent-chwistrellwyr yn effeithiol mewn gweithgareddau celf er mwyn cymell disgyblion i greu darnau o waith celf o safon uchel.

Mae llawer o athrawon a staff cefnogi yn defnyddio holi'n effeithiol i wirio dealltwriaeth disgyblion ac i ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau. Maent hefyd yn annog disgyblion i fyfyrio'n ofalus ar eu dysgu a'u hymddygiad yn gyson.

Mae llawer o athrawon yn darparu adborth llafar pwrpasol ar waith disgyblion. Rhoddant ganmoliaeth a chlod am ymdrechion a chyflawniad da ac, yn gyffredinol, maent yn cynnig awgrymiadau priodol ar sut i wella'r gwaith. Lle bo'n briodol, mae athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig addas i gefnogi dysgu pellach.

Ar y cyfan, mae llawer o'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u cymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm. Yn yr arferion gorau, mae tasgau yn caniatáu i ddisgyblion ddatblygu'r medrau hyn yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae anghysondeb yn y modd y mae athrawon yn cynllunio ar gyfer datblygiad cynyddol disgyblion mewn medrau, yn arbennig llythrennedd a TGCh. O ganlyniad, nid yw'r ddarpariaeth yn bodloni gofynion pob disgybl, yn enwedig y rhai mwyaf galluog. Mae'r cynllunio strategol diweddar ar gyfer datblygu'r medrau yn fanwl, yn gynhwysfawr ac yn cynnwys mewnbwn gan y tîm dysgu cyfan. Maent yn gofyn am farn a syniadau disgyblion am y themâu ac yn eu cynnwys cymaint â phosib wrth gynllunio. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y cynllunio diweddar hwn ar safonau disgyblion.

Mae staff yr UCD yn llwyddiannus wrth drefnu a darparu cyrsiau sy'n ateb gofynion disgyblion unigol yng nghyfnod allweddol 4. Yn ogystal â'r ddarpariaeth ar gyfer y

pynciau craidd, mae'r UCD yn cydweithio'n agos ag ysgolion uwchradd lleol a chanolfan hyfforddiant amgen, i gynnig cyrsiau diddorol a defnyddiol i'r disgyblion. Mae hyn yn cynnwys astudiaethau gofaint, mecaneg moduron, cyrsiau trin gwallt ac adeiladwaith. Mae'r arlwy eang o gyrsiau sydd ar gael yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddilyn cwrs sy'n apelio atynt ac yn cynnig cyfleoedd iddynt lwyddo a chyflawni'n dda. Mae hyn yn cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu medrau, hyder a hunan-barch angenrheidiol ar gyfer ailafael yn llwyddiannus yn eu haddysg mewn ysgolion prif lif neu i symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu waith.

Mae darpariaeth yr UCD ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol disgyblion yn gryfder. Mae'r athrawon a staff cymorth yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr a rheolaidd i ddisgyblion astudio a myfyrio ar feysydd cyfoes pwysig, fel addysg perthnasoedd a rhywioldeb, a hawliau plant. Gwneir hyn trwy wasanaethau dyddiol gwerthfawr a thrwy wersi addysg bersonol a chymdeithasol sydd wedi'u cynllunio'n effeithiol ar draws y safleoedd. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu medrau bywyd buddiol trwy sesiynau yn y gampfa leol, cyrsiau achub bywyd a sesiynau coginio. Mae'r gweithgareddau hyn o fudd mawr i ddisgyblion, ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd ar ôl gadael yr UCD.

Mae gan yr UCD berthynas werthfawr gyda rhwydwaith eang a chynhwysfawr o gwmnïau lleol sy'n darparu profiad gwaith i ddisgyblion yr uned. Trwy hyn, rhoddir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cymdeithasol mewn sefyllfaoedd go iawn gan ennill profiad o'r cyfleoedd sydd yn y byd gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys ymbincio cŵn, gweithio gyda masnachwyr adeiladu a gweithio mewn archfarchnad leol ac yn y maes arlwyo.

Mae'r UCD yn cynnig gwersi a chyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn ddibynnol ar gefndir academaidd y disgyblion. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn dysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn ystyrlon. Enghraifft dda o hyn yw'r gweithgareddau sy'n arwain at Ŵyl Dewi lle mae disgyblion yn ysgrifennu barddoniaeth, coginio cacennau Cymreig ac yn ailgylchu poteli plastig i greu cennin Pedr. Maent hefyd yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd ac yn ymweld â Llangrannog. Mae rhan fwyaf o staff yn defnyddio'r Gymraeg gyda'r disgyblion yn rheolaidd, sy'n sicrhau bod gan ddisgyblion gyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau yn y Gymraeg. Mae hyn yn nodwedd gref.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion yn gymuned hynod ofalgar sydd yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad gwerthfawr i'w disgyblion. Mae'r UCD hefyd yn darparu gwasanaeth cynghori effeithiol iawn i staff ysgolion prif lif ar sut i gefnogi disgyblion ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol ar draws Ceredigion. Mae'r ethos cynhwysol a chefnogol hwn yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn adnabod anghenion unigol disgyblion yn dda iawn ac yn ymateb yn llwyddiannus iddynt.

Mae gan yr ysgol strategaethau a gweithdrefnau effeithiol er mwyn olrhain, monitro a hyrwyddo presenoldeb, lles ac ymddygiad disgyblion. Gwneir defnydd pwrpasol o ddata lles i adnabod a thargedu disgyblion sydd angen cefnogaeth o ran eu presenoldeb neu eu hagweddau at ddysgu ac i ddarparu ymyrraeth bwrpasol iddynt.

Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau ar gyfer olrhain cynnydd pynciol a chyflawniad disgyblion dros amser yn ddigon cadarn. Mae hyn yn lleihau gallu athrawon i gynllunio'n fanwl ar gyfer datblygiad cynyddol disgyblion yn eu medrau, yn enwedig ar gyfer y disgyblion mwy abl.

Mae'r UCD yn cynnal perthynas broffesiynol werthfawr a defnyddiol gydag asiantaethau allanol i ddarparu cymorth pwrpasol a llesol i ddisgyblion. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â gwasanaethau plant, gweithwyr ieuenctid, staff iechyd a'r swyddog gyrfaoedd er mwyn darparu cyngor gyrfaol ac addysgol gwerthfawr i ddisgyblion.

Mae gan yr UCD brosesau effeithiol pan fydd disgybl yn trosglwyddo o'r ysgol neu'n dychwelyd i'r ysgol. Mae arweinwyr yn rhyngweithio'n llwyddiannus i sicrhau bod trefniadau'n llyfn a chefnogol. Mae hyn yn sicrhau deilliannau gwell o ran lles ac ymddygiad y disgyblion.

Mae pob disgybl yn destun cynllun addysg unigol briodol. Mae staff yn defnyddio gwybodaeth gynhwysfawr am ddisgyblion er mwyn llunio targedau pwrpasol yn y cynlluniau hyn i wella eu hymddygiad a'u cyfranogiad. Fodd bynnag, nid yw'r targedau ar gyfer codi safonau cyflawniad disgyblion unigol wedi'u hymgorffori'n llawn. Mae'r UCD yn olrhain cynnydd y disgyblion yn erbyn eu targedau lles yn addas ac yn rheolaidd. Mae rhieni a gofalwyr a'r disgyblion eu hunain yn rhan ganolog o adolygu cynnydd ac o osod targedau trwy'r adolygiadau blynyddol.

Mae staff yn cyfathrebu'n dda â rhieni a gofalwyr ac yn eu cefnogi'n fuddiol iawn er lles y disgyblion. Maent yn gwneud defnydd helaeth o e-byst, negeseuon testun a'r cyfyngau cymdeithasol er mwyn rhannu gwybodaeth a dathlu llwyddiannau disgyblion. Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn gwybodaeth werthfawr a phenodol am ymdrech a chynnydd eu plant trwy adroddiad llawn blynyddol. Fodd bynnag, nid yw'r cyngor am y camau nesaf o ran cynnydd academaidd disgyblion yn ddigon cyson o fewn adroddiadau.

Mae'r UCD yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella eu ffitrwydd a'u dealltwriaeth o sut i fyw'n iach. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol a gwasanaethau boreol buddiol yn cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Trwy'r rhain, mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth a pharch at gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r arlwy briodol o weithgareddau llesol fel yoga a therapi celf yn rhoi cymorth i ddisgyblion ddysgu sut i ymlacio a mynegi eu teimladau'n llwyddiannus.

Mae'r rhaglen o weithgareddau allgyrsiol a'r cwricwlwm amgen yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu medrau bywyd pwysig. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau o gydweithio'n effeithiol mewn ymweliadau â'r orsaf dân leol neu wrth iddynt heicio ar hyd yr arfordir.

Mae trefniadau'r UCD ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ac uchelgeisiol ac mae wedi gosod nod ac amcanion strategol pwrpasol ar gyfer yr UCD. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel o ran pob agwedd o waith y gwasanaeth. Serch ei apwyntiad diweddar iawn, mae ei arweinyddiaeth ysgogol wedi sicrhau ysbryd cryf o gydweithio ymysg yr holl staff.

Maent wedi ymateb yn dda i'r ad-drefnu priodol diweddar ac maent yn gwbl ymroddedig i waith yr UCD ac i'r arwyddair, ' Mae pob plentyn yn bwysig '.

Mae trefniadau priodol i rannu arweinyddiaeth a chyfrifoldebau ar draws yr UCD ac mae llinellau atebolrwydd yn glir.  Mae'r model deinamig hwn yn galluogi staff i weithio ar draws safleoedd yr UCD gan sicrhau bod disgyblion yn derbyn yr un cyfleoedd a phrofiadau dysgu.

Mae ansawdd uchel y cyfathrebu ar draws portffolio'r UCD yn nodwedd gref o'i gwaith.  Mae patrwm o gyfarfodydd rheolaidd wedi'u hamserlennu er mwyn i staff drafod cynnydd lles disgyblion ac i gynllunio a gwerthuso'r ddarpariaeth.  Mae bron yr holl staff yn deall eu rôl mewn perthynas â safonau a lles disgyblion.

Mae penodiad y pennaeth yn un diweddar iawn, ac, o'r herwydd, mae'r gwerthusiad strategol o'r meysydd i'w gwella yn gynnar iawn.  Ar hyn o bryd, nid yw arfarniad arweinwyr o waith yr UCD wedi'i ddatblygu'n llawn ac nid yw'r arfarniadau'n  nodi meysydd y mae angen eu gwella yn ddigon da mewn perthynas â dysgu ac addysgu.  Mae arweinwyr yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol yn briodol er mwyn gwerthuso eu gwaith.  Maent yn cynnal ystod addas o weithgareddau monitro, gan gynnwys dadansoddi data, gwrando ar ddysgwyr a chraffu ar waith y disgyblion.  Fodd bynnag, nid ydynt yn canolbwyntio digon ar ansawdd gwaith disgyblion mewn meysydd allweddol fel darllen, ysgrifennu a rhifedd.  Serch y diffygion hyn, mae gan arweinwyr wybodaeth briodol am gryfderau'r UCD ac maent yn dyrannu adnoddau'n bwrpasol i gefnogi gwelliant pellach,  er enghraifft trwy ddefnyddio cyllid y grant datblygu disgyblion i ddarparu therapi trawma.

Mae'r bwrdd rheoli yn cefnogi'r UCD yn dda iawn.  Mae gan yr aelodau ystod eang o fedrau ac arbenigeddau proffesiynol buddiol i gefnogi eu gwaith.  Mae arweinwyr yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr i'r bwrdd rheoli am waith yr UCD.  Mae hyn yn eu galluogi i herio a chwestiynu'r UCD am ei pherfformiad, er enghraifft ar faterion fel presenoldeb.  Mae aelodau o'r bwrdd yn datblygu eu gallu i herio a chefnogi arweinwyr yr UCD ynglŷn a chyflawniad disgyblion ac ansawdd yr addysgu yn addas.

Mae disgwyliadau staff yr UCD yn uchelgeisiol ar gyfer y disgyblion.  Ceir dyhead cryf i gynyddu profiadau dysgu ac i wella lles disgyblion.  Mae'r cynlluniau ar gyfer datblygu staff yn cysylltu'n uniongyrchol â thargedau rheoli perfformiad cyfredol.  Mae rhaglen effeithiol ar gyfer datblygu staff trwy hyfforddiant pwrpasol a chymorth proffesiynol i wella eu harfer.  Mae bron pob un o'r staff yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ddysgu proffesiynol i wella'u harfer eu hunain ac arfer pobl eraill, gan gynnwys hyfforddi athrawon newydd.  Nodwedd gref o hyn yw'r cysondeb yn y ffordd mae staff yn rheoli a hybu ymddygiad da ymhlith y disgyblion yn effeithiol.

Pan fydd angen, mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol, yn delio'n effeithiol ag unrhyw staff sy'n tanberfformio.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir a dylanwad addas o ran defnyddio a rheoli adnoddau a ddyrennir gan yr awdurdod lleol.  Mae staff yn gwneud y gorau o adeiladau ac adnoddau, gan greu amgylchedd cyfforddus a chroesawgar lle gall disgyblion deimlo'n ddiogel.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr unded cyfeirio disgyblion (UCD) a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r athro â gofal/pennaeth, y pwyllgor rheoli, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr UCD
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu UCD
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor UCD a’r pwyllgor eco (lle y bo’n briodol)
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd (lle y bo’n briodol)
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r UCD
- yn ystyried cynllun gwella’r UCD ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr uned wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r UCD, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r pwyllgor rheoli, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr uned ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓒ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/04/2020